Nodiadau Cwblhau Cyfrifon Croniadau

Adran 1 Cyflwyniad

Pwrpas pro fforma cyfrifon

Mae'r pro fforma cyfrifon yn ceisio helpu elusennau llai i baratoi a chyflwyno cyfrifon croniadau. Darparant fformat ar gyfer cyfrifon o'r fath a nodir y datgeliadau allweddol sydd wedi'u cynnwys yng Nghyfrifon ac Adroddiadau Elusennau: Datganiad o Arferion Cymeradwy (SORP Elusennau) a gyhoeddwyd ym Mawrth 2005.

Bydd y pro fforma cyfrifon a'r nodiadau ar y cyfrifon (CC17a), wedi'u cwblhau'n llawn, yn cynnwys yr holl wybodaeth y mae ei hangen ar elusennau llai sy'n paratoi cyfrifon croniadau.

Elusennau y gall y pro fforma cyfrifon fod yn ddefnyddiol ar eu cyfer

Mae'r pro fforma cyfrifon wedi'i baratoi'n benodol i elusennau y mae'n ofynnol iddynt ddilyn y SORP Elusennau ond nid yw'n ofynnol iddynt gael archwiliad statudol.

Mae'r SORP Elusennau yn darparu nifer o gonsesiynau i elusennau llai sydd wedi'u cynnwys o fewn y pro fforma cyfrifon.

Fe welwch fanylion am y trothwyon archwilio dan Ddeddf Elusennau 1993 yn y Rhestr Termau ar ddiwedd y nodiadau hyn.

Elusennau na ddylent ddefnyddio'r pro fforma cyfrifon

Ni ddylid defnyddio'r pro fforma cyfrifon;

- os yw'n ofynnol i'r elusen gael archwiliad ariannol yn ôl y gyfraith;
- os yw'n ofynnol i'r elusen ddilyn SORP arall neu fframwaith rheoleiddio arall (er enghraifft, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig); neu
- os yw'n elusen cronfa fuddsoddi, sy'n cynnwys cronfeydd adnau cyffredin a chronfeydd buddsoddi cyffredin (heblaw cronfeydd cynllun cronni).

Elusennau y gall y pro fforma cyfrifon fod yn anaddas ar eu cyfer

Nid yw'r pro fforma cyfrifon yn cynnwys yr holl ddatgeliadau sy'n ofynnol:

- gan gwmni; neu
- os oes gan yr elusen:
  - is-gwmni, menter ar y cyd neu fusnesau masnachu cysylltiedig;
  - mae'n gweithredu cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig.

Dylai ymddiriedolwyr elusennau y mae'r pro fforma cyfrifon yn anaddas ar eu cyfer oherwydd y cyfyngiadau uchod naill ai:

- gyfeirio at gyhoeddiadau priodol fel y SORP Elusennau neu'r Ddeddf Cwmnïau am fwy o arweiniad manwl; neu
- ystyried defnyddio cyfrifydd sy'n gyfarwydd â'r SORP Elusennau i helpu paratoi'r cyfrifon.

Elusennau bach heb fod yn gwmni

Ar gyfer blynyddoedd ariannol yn diweddu ar neu ar ôl 1 Ebrill 2009 gall elusennau heb fod yn gwmni sydd ag incwm o £250,000 neu lai ddewis paratoi cyfrifon derbyniadau a thaliadau seiliedig ar arian parod. Ar gyfer blynyddoedd ariannol yn diweddu cyn 1 Ebrill 2009, mae'r trothwy incwm gros hwn ar gyfer cyfrifon derbyniadau a thaliadau yn is, sef £100,000. Mae cyfrifon o'r fath yn symlach i'w paratoi ac yn gofyn am lai o ddatgeliadau a nodiadau cyfrifyddu manwl. Rydym wedi paratoi pro fforma cyfrifon ar sail derbyniadau a thaliadau (CC16a) hefyd i elusennau llai a hoffai baratoi cyfrifon ar y sail hon.

Gwybodaeth bellach

Mae ein gwefan www.charitycommission.gov.uk yn cynnwys mwy o wybodaeth ddefnyddiol a chyfeirir ati mewn sawl man yn y nodiadau hyn.

Mae'r adran hon yn cynnwys arweiniad ar:

- Sut y gellid defnyddio'r pro fforma cyfrifon;
- Pa mor fanwl y mae angen paratoi'r cyfrifon;
- Talgrynu;
- Debydu;
- Pa weithgareddau ac adnoddau y mae'n rhaid eu cynnwys yn y cyfrifon;
- Pa ddatganiadau y mae'n rhaid eu cynnwys yn y cyfrifon.

Sut gellir defnyddio'r pro fforma?

Mae'r pro fforma cyfrifon yn seiliedig ar ddulliau ac egwyddorion cyffredinol y fersiwn diweddaraf o SORP Elusennau 2005.

Mae'r pro fforma cyfrifon wedi cael ei baratoi i gwmpasu'r rhan fwyaf o amgylchiadau sy'n debygol o fod yn gymwys i elusennau llai. Fodd bynnag, rhaid i ymddiriedolwyr elusennau ofalu eu bod yn darparu unrhyw wybodaeth ychwanegol sydd ei hangen i roi darlun gwir a theg o weithgareddau'r elusen a'i chyflwr ariannol. Os oes unrhyw faterion eraill sy'n berthnasol ac mae angen eu cynnwys er mwyn deall y cyfrifon yn iawn ond nid yw'r pro fforma cyfrifon yn darparu ar eu cyfer yn benodol, dylid rhoi manylion pellach trwy nodiadau ychwanegol.

Os oes angen i elusen gyfrif am drafodiad cymhleth neu un sy'n anarferol ar gyfer elusennau llai bydd angen cyfeirio at y SORP Elusennau neu efallai y bydd angen ceisio cyngor gan gyfrifydd proffesiynol.

Bydd y pro fforma cyfrifon, pan gaiff ei gwblhau'n briodol gyda gwybodaeth a symiau o gofnodion cyfrifyddu'r elusen, yn bodloni gofynion cyfreithiol yr elusen ar gyfer paratoi cyfrifon blynyddol.

Gall elusennau llai sy'n dymuno cynllunio eu cyfrifon blynyddol eu hunain ddefnyddio'r pro fforma cyfrifon fel llyfr gwaith neu ganllaw i'r eitemau y mae'n rhaid eu cynnwys.

Mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr elusen gymeradwyo'r cyfrifon a dylai o leiaf un (ond argymhellwn y dylai dau) ohonynt lofnodi'r fantolen fel tystiolaeth o'r gymeradwyaeth honno.

Pa mor fanwl gywir ddylid paratoi'r cyfrifon elusen?

Mae'r gair **perthnasol** yn cael ei ddefnyddio'n aml yn y SORP Elusennau ac yn y nodiadau hyn. Mae eitem yn berthnasol pe byddai ei chynnwys neu ei hepgor o'r cyfrifon yn debygol o newid barn y darllenydd am y cyfrifon. Fel rheol po fwyaf yr eitem y mwyaf perthnasol y mae'n debygol o fod.

Nid oes angen nodi manylion eitemau gwerth isel yn aml, oherwydd nid ydynt yn effeithio ar ddealltwriaeth gyffredinol y darllenydd o'r cyfrifon. Er enghraifft, nid yw symiau dan £1 byth yn bwysig a gellir ei anwybyddu. Mae'n bosib y bydd neu na fydd angen adrodd am rai eitemau yn dibynnu ar faint yr elusen (wedi'i fesur yn ôl incwm gros neu gyfanswm mantolen). Er enghraifft, gall fod yn berthnasol i gynnwys yn y fantolen ased sefydlog diriaethol sy'n costio £500 os oes gan yr elusen incwm gros o £10,000 ond byddai'n llawer llai perthnasol os oes gan yr elusen incwm gros o £250,000.

Mae rhai eitemau bob amser yn berthnasol i elusennau, er enghraifft, symiau sy'n cael eu talu i ymddiriedolwyr am dreuliau neu daliad cydnabyddiaeth a symiau sy'n cael eu talu i bartïon perthynol.

Dylid nodi'r holl wybodaeth y gofynnir amdani yn y pro fforma cyfrifon oni bai:

- nid yw'n gymwys i'r elusen; neu
- mae wedi'i nodi yn y pro fforma cyfrifon fel gwybodaeth y **gall** yr ymddiriedolwyr ddewis ei rhoi.

Talgrynu

Mae'n arferol paratoi cyfrifon mewn £oedd cyfan. Bydd symiau'n cael eu talgrynu i'r £ agosaf (ee £4.60 yn troi'n £5).

Dim debydu

Mae'r holl adnoddau a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn yn cael eu cynnwys yn y datganiad o weithgareddau ariannol fel swm gros. Er enghraifft, dylid dangos yr enillion gros o ddigwyddiad codi arian fel adnoddau a dderbyniwyd a dylid dangos y costau sy'n gysylltiedig â'r digwyddiad fel adnoddau a ddefnyddiwyd.

Pa ddatganiadau dylid eu cynnwys yn y cyfrifon?

Rhaid i gyfrifon croniadau elusennau gynnwys:

- Datganiad o weithgareddau ariannol (DWA)
- Mantolen; a
- Nodiadau ar y cyfrifon.

Rhaid i elusennau cofrestredig sy'n paratoi cyfrifon croniadau hefyd baratoi adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr sy'n rhoi gwybodaeth gefndir am yr elusen ac esboniad ysgrifenedig o'r hyn y mae'r elusen yn ceisio ei wneud a sut y mae'n mynd ati i'w gyflawni. Mae pro fforma adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr hefyd ar gael gan y Comisiwn Elusennau.

Fel rheol bydd y cyfrifon yn cynnwys adroddiad gan naill ai:

- archwiliwr annibynnol (ar yr amod bod yr elusen yn is na'r trothwy archwilio); neu
- archwiliwr cofrestredig (os yw'r elusen yn uwch na'r trothwy archwilio neu'n dewis cael archwiliad llawn o'i chyfrifon).

Yn ôl y gyfraith mae'n ofynnol i'r rhan fwyaf o elusennau y mae'r pro fforma cyfrifon wedi'i baratoi ar eu cyfer gael archwiliad annibynnol yn unig. Ar gyfer cyfnodau cyfrifyddu yn diweddu ar neu ar ôl 1 Ebrill 2009 nid yw'n ofynnol yn ôl y gyfraith i elusennau sydd ag incwm gros o lai na £25,000 gael naill ai archwiliad annibynnol neu archwiliad ariannol. Ar gyfer blynyddoedd ariannol yn diweddu cyn 1 Ebrill 2009, mae'r trothwy incwm gros hwn yn is, sef £10,000. Bydd dogfen lywodraethol rhai elusennau hefyd yn ei gwneud hi'n ofynnol iddynt gael archwiliad annibynnol neu archwiliad ariannol gan archwiliwr cofrestredig, neu bydd rhoddwr yn mynnu eu bod yn ei gynnal.

Mae pro fforma adroddiad yr archwiliwr annibynnol ar gael o'r Comisiwn Elusennau.

Mae'n bosib y bydd angen i rai elusennau gynnwys datganiadau ychwanegol yn eu cyfrifon. Y ddau brif ddatganiad sy'n ofynnol yw:

- Gall fod yn ofynnol i elusennau sy'n gwmni, mewn rhai achosion cyfyngedig (e.e. pan nad oes modd adnabod incwm a gwariant yn y DWA ac mae symudiad ar waddolion neu mae enillion a cholledion heb eu realeiddio ganddynt), gael cyfrif incwm a gwariant cryno.
- Bydd rhaid i elusennau mwy (gydag un o'r canlynol: incwm o fwy na £6.5m, cyfanswm mantolen o fwy na £3.26m neu nifer cyfartalog o weithwyr o 50 neu fwy) gynhyrchu datganiad llif arian.

Mae manylion llawn am y datganiadau hyn a'r amgylchiadau pan fydd eu hangen wedi'u nodi yn y SORP Elusennau.

Pa weithgareddau ac adnoddau sy'n rhaid eu cynnwys yn y cyfrifon?

Dylai'r cyfrifon gynnwys yr holl adrannau, canghennau a chronfeydd y mae'r ymddiriedolwyr elusen yn eu rheoli. Mae'n sicrhau bod rhywun sy'n darllen y cyfrifon yn deall asedau, rhwymedigaethau a symudiad adnoddau'r elusen yn llawn.

Mae'r DWA yn cofnodi holl adnoddau a dderbyniwyd ac adnoddau a ddefnyddiwyd gan yr elusen yn y flwyddyn ariannol.

Mae'r pro fforma DWA wedi'i rannu'n golofnau a rhesi sydd wedi'u rhifo. Mae crynodeb wedi'i ddarparu isod o'r hyn y dylid ei nodi ym mhob colofn a rhes.

Categorïau gweithgaredd

Gall elusennau sydd dan y trothwy archwiliad ddewis dadansoddi eu hadnoddau a dderbyniwyd a'u hadnoddau a ddefnyddiwyd trwy ddefnyddio naill ai:

- y categorïau "Gweithgaredd" a argymhellir gan SORP Elusennau (mae'r penawdau a ddefnyddir wedi'u rhagargraffu yng ngholofn gyntaf y pro fforma DWA); neu
- ddosbarthiad 'Naturiol', er enghraifft, cyflogau, rhent, trethi, deunydd ysgrifennu ac ati (mae'r Tabl cyferbyn yn dangos cynnwys *posib* dosbarthiad naturiol - mae penawdau eraill yn bosib).

Os yw'r ymddiriedolwyr yn **dewis peidio â** defnyddio'r categorïau gweithgaredd gallant ddileu'r penawdau a ddarperir ar y pro fforma DWA a defnyddio'r bylchau a ddarperir ar gyfer eu categorïau dadansoddiad eu hunain. Gyda'r ddau ddewis gellir rhoi dadansoddiad pellach yn y nodiadau ar y cyfrifon.

Argymhellwn fod elusennau, lle'n bosib, yn defnyddio'r categorïau gweithgaredd a ddarperir oherwydd mae'n rhoi gwybodaeth ddefnyddiol ynghylch faint mae elusennau yn ei wario ar weithgareddau elusennol.

Os defnyddir y categorïau gweithgaredd, gellir dyrannu costau sy'n cyfeirio at fwy nag un gweithgaredd rhwng gweithgareddau.

Mae'r dewis i ddefnyddio categorïau naturiol neu weithgaredd dim ond ar gael ar gyfer adnoddau a dderbyniwyd ac adnoddau a ddefnyddiwyd. Dylid cwblhau rhesi eraill yn y DWA yn unol â'r pro fforma DWA.

Enghraifft o gategorïau naturiol ar gyfer adnoddau a dderbyniwyd ac adnoddau a ddefnyddiwyd
Adnoddau a dderbyniwyd
Rhoddion, cymynroddion a grantiau
Digwyddiadau codi arian, e.e. cyngherddau, rafflau, ffeiriau sborion ac ati
Arwerthiannau siop
Llog a difidendau
Ffioedd ar gyfer gwasanaethau elusennol
Grantiau ar gyfer gwasanaethau
Adnoddau a ddefnyddiwyd
Cyflogau wythnosol a misol, pensiynau ac YG
Cost digwyddiadau codi arian
Rhent, trethi ac yswiriant
Atgyweiriadau a gwaith cynnal a chadw
Goleuadau a gwres
Ffôn, tâl post a deunydd ysgrifennu
Grantiau a chyfraniadau
Ffioedd cyfreithiol a phroffesiynol
Taliadau banc a llog

Colofnau - cyfrifyddu cronfa

Mae F01 i F05 yn disgrifio'r hyn y dylid ei nodi ym mhob *colofn*

F01	Y golofn ar gyfer pob swm sy'n gysylltiedig â chronfeydd **anghyfyngedig.**
F02	Y golofn ar gyfer pob swm sy'n gysylltiedig â chronfeydd **incwm cyfyngedig.**
F03	Y golofn ar gyfer symudiadau yn y cronfeydd **gwaddol** yn unig.
F04	Y golofn ar gyfer **cyfanswm** colofnau **F01, F02** a **F03**.
F05	Y golofn ar gyfer **cyfanswm** colofnau **F01, F02** a **F03** wedi'u nodi yn y cyfrifon ar gyfer y flwyddyn flaenorol.

Rhesi - adnoddau a dderbyniwyd

Categorïau "Gweithgaredd" a "Naturiol"

Mae rhesi S01 i S06 isod yn esbonio'r hyn y dylid ei gynnwys ym mhob categori adnoddau a dderbyniwyd os yw ymddiriedolwyr elusen yn dewis dilyn categorïau "gweithgaredd" a argymhellir yn y SORP Elusennau. Os yw'r ymddiriedolwyr elusen yn dewis defnyddio categorïau "naturiol", dylid dileu'r categorïau gweithgaredd a ddarperir yn y pro fforma DWA a dylid rhoi penawdau eraill yn y blychau gwag ar gyfer pob un o'r rhesi hyn. Yn y naill achos neu'r llall, mae'r nodiadau a ddarperir o fewn y pro fforma cyfrifon yn caniatáu ar gyfer dadansoddiad pellach o adnoddau a dderbyniwyd.

Rhes	Categori dadansoddi	Esboniad
S01	**Incwm gwirfoddol**	Bydd yn cynnwys • Rhoddion a chyfraniadau a dderbyniwyd gan gynnwys cymynroddion. • Rhoddion o fath arall a gwasanaethau neu gyfleusterau a roddwyd. • Unrhyw dreth a adenillwyd ar symiau a dderbyniwyd dan rodd cymorth. • Tanysgrifiadau aelodaeth a nawdd sydd, yn eu hanfod, yn gyfraniadau. • Grantiau o natur gyffredinol neu ar gyfer cyllid craidd.

Rhes	Categori dadansoddi	Esboniad
S02	**Gweithgareddau ar gyfer cynhyrchu cronfeydd**	Bydd yn cynnwys adnoddau a gynhyrchwyd trwy weithgareddau masnachu sy'n benodol ar gyfer codi arian ar gyfer yr elusen megis: • Digwyddiadau codi arian, er enghraifft, ffeiriau sborion, arddangosiadau tân gwyllt a chyngherddau. • Nawdd a lotrïau cymdeithasol nad ydynt yn gyfraniadau pur. • Incwm siop o werthu nwyddau a roddwyd a nwyddau a brynwyd i mewn. • Darparu nwyddau neu wasanaethau nad ydynt ar gyfer buddiolwyr yr elusen. • Gosod a thrwyddedu eiddo a ddelir at ddefnydd swyddogaethol ond sy'n fwy na'r hyn sydd ei angen dros dro.
S03	**Incwm o fuddsoddiadau**	Mae'n cynnwys llog banc a chymdeithas adeiladu, difidendau, rhenti gros o eiddo buddsoddi ac unrhyw dreth gysylltiedig y gellir ei hadennill.
S04	**Adnoddau a dderbyniwyd o weithgareddau elusennol**	Yr adnoddau sy'n codi o weithgareddau sy'n hybu amcanion elusennol, gan gynnwys: • Gwerthu nwyddau neu wasanaethau o weithgareddau'r elusen (masnachu prif ddiben gan gynnwys taliadau contract gan y llywodraeth neu awdurdodau cyhoeddus). • Gwerthu nwyddau a wnaed, neu wasanaethau a ddarparwyd, gan fuddiolwyr yr elusen (ee gwerthu nwyddau o weithdai lloches). • Gosod eiddo heb fod yn eiddo buddsoddi er mwyn hybu amcanion yr elusen. • Grantiau penodol ar gyfer darparu nwyddau neu wasanaethau fel rhan o weithgareddau elusennol neu wasanaethau i fuddiolwyr (gan gynnwys grantiau cysylltiedig â pherfformiad). • Masnachu atodol sy'n gysylltiedig â'r uchod.
S05	**Adnoddau eraill a dderbyniwyd**	Mae incwm arall na ellir ei gynnwys mewn unrhyw un o'r rhesi uchod wedi'i gynnwys yma (ee enillion ar warediadau o asedau sefydlog diriaethol at ddefnydd yr elusen).
S06	**Cyfanswm adnoddau a dderbyniwyd**	Cyfanswm rhesi S01 i S05 sy'n rhoi cyfanswm yr holl adnoddau sy'n dod i mewn i'r elusen.

Rhesi - Adnoddau a ddefnyddiwyd

Mae rhesi S07 i S13 isod yn esbonio'r hyn y dylid ei gynnwys ym mhob categori o adnoddau a ddefnyddiwyd lle mae ymddiriedolwyr elusen yn dewis dilyn categorïau "gweithgaredd" a argymhellir yn y SORP Elusennau. Os yw'r ymddiriedolwyr elusen yn dewis defnyddio categorïau "naturiol", dylid dileu'r categorïau gweithgaredd a ddarperir yn y pro fforma DWA a dylid rhoi penawdau eraill yn y blychau gwag ar gyfer pob un o'r rhesi hyn. Yn y naill achos neu'r llall, mae'r nodiadau a ddarperir o fewn y pro fforma cyfrifon yn caniatáu ar gyfer dadansoddiad pellach o adnoddau a wariwyd.

Rhes	Categori dadansoddi	Esboniad
S07	**Costau cynhyrchu incwm gwirfoddol**	Mae'n cynnwys yr holl gostau sy'n codi wrth gynhyrchu incwm gwirfoddol ar gyfer yr elusen. Bydd yn cynnwys yr holl gostau sy'n codi wrth gynhyrchu'r incwm a restrir yn rhes S01 uchod, er enghraifft, cyfraniadau, cymynroddion, grantiau cyllid craidd a rhoddion o fath arall.
S08	**Costau masnachu codi arian**	Bydd yn cynnwys holl gostau gweithgareddau masnachu sy'n benodol ar gyfer cynhyrchu incwm ar gyfer yr elusen. Bydd yn cynnwys yr holl gostau sy'n codi wrth gynhyrchu'r incwm a restrir yn rhes S02 uchod, er enghraifft, masnachu codi arian, ac mae'n cynnwys cost nwyddau a werthwyd a threuliau eraill.
S09	**Costau rheoli buddsoddiadau**	Mae'n cynnwys cost rheoli portffolio buddsoddi, ceisio cyngor buddsoddi, gweinyddu buddsoddiadau, casglu rhent, atgyweiriadau eiddo buddsoddi a chostau cynnal a chadw.
S10	**Gwariant elusennol**	Mae'n cynnwys yr holl adnoddau a ddefnyddir gan elusen wrth ymgymryd â gwaith i fodloni ei hamcanion elusennol. Bydd yn cynnwys costau rhoi grantiau a darparu gwasanaethau elusennol uniongyrchol. Gellir dadansoddi'r cyfanswm ar gyfer gwariant elusennol ymhellach yn y nodiadau ar y cyfrifon. Er enghraifft: • Rhoi manylion am y gweithgareddau neu brosiectau (gweler nodyn 4 y pro fforma cyfrifon); a/neu • Esbonio pa weithgareddau a gyflawnwyd yn uniongyrchol gan yr elusen a pha rai gafodd eu cyllido trwy roi grantiau.
S11	**Costau llywodraethu**	Mae'n cynnwys costau gweinyddu'r elusen yn gyffredinol yn wahanol i gynhyrchu cronfeydd, darparu gwasanaeth a gwaith rhaglen neu brosiect. Bydd y categori hwn yn cynnwys cyngor cyfreithiol a chostau sy'n gysylltiedig â gofynion cyfansoddiadol a statudol, e.e. cost cyfarfodydd ymddiriedolwyr a pharatoi ac archwilio ariannol (mewnol ac allanol) neu archwilio annibynnol cyfrifon statudol.
S12	**Adnoddau eraill a ddefnyddiwyd**	Ni ddefnyddir y rhes hon yn aml oherwydd gellir cynnwys bron y cyfan o'r adnoddau a ddefnyddiwyd mewn un o'r categorïau uchod.
S13	**Cyfanswm adnoddau a ddefnyddiwyd**	Cyfanswm rhesi S07 i S12.

Rhesi - Trosglwyddiadau, enillion a cholledion

Mae rhesi S14 i S21 isod yn esbonio categorïau dadansoddi eraill y DWA. Defnyddir adrannau hyn y DWA i gofnodi trosglwyddiadau rhwng cronfeydd ac enillion a cholledion eraill er mwyn darparu symudiad net mewn cronfeydd a chysoni cyfanswm cronfeydd a ddelir ar ddiwedd y flwyddyn.

Rhes	Categori dadansoddi	Esboniad
S14	**Adnoddau net i mewn/(allan) cyn trosglwyddiadau**	Y cyfanswm yn rhes S06 llai'r cyfanswm yn rhes S13.
S15	**Trosglwyddiadau gros i ac o gronfeydd**	Dadansoddir unrhyw drosglwyddiadau rhwng cronfeydd yn y rhesi hyn.
S16	**Adnoddau net i mewn/(allan) cyn enillion a cholledion cydnabyddedig**	Cyfanswm rhesi S14 a S15.
S17	**Enillion a cholledion o ailbrisio asedau sefydlog swyddogaethol**	Mae'n cynnwys newid mewn gwerth unrhyw asedau sefydlog swyddogaethol y mae'r elusen yn berchen arnynt o ganlyniad i ail-werthuso heblaw dibrisiad a cholledion amhariad (codir y ddau i adnoddau a ddefnyddiwyd). Fel rheol defnyddir y rhes hon dim ond os oes gan yr elusen bolisi ail-werthuso asedau swyddogaethol.
S18	**Enillion a cholledion o waredu ac ail-werthuso asedau buddsoddi**	Cyfanswm unrhyw enillion a cholledion sy'n deillio o ail-werthuso asedau buddsoddi i werth y farchnad ar ddiwedd cyfnod cyfrifyddu ac unrhyw enillion a cholledion sy'n deillio o waredu asedau buddsoddi yn ystod y flwyddyn.
S19	**Symudiad net mewn cronfeydd**	Cyfanswm rhesi S16 i S18.
S20	**Cyfanswm cronfeydd a ddygwyd ymlaen**	Y gweddillion a ddygwyd ymlaen ar ddechrau'r flwyddyn.
S21	**Cyfanswm cronfeydd a gariwyd ymlaen**	Cyfanswm rhesi S19 a S20.

Mae'r fantolen yn darparu "braslun" o asedau a rhwymedigaethau'r elusen ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Mae'r SORP Elusennau yn gofyn am ddadansoddiad o asedau a rhwymedigaethau'r elusen rhwng cronfeydd incwm anghyfyngedig a chyfyngedig a chronfeydd gwaddol. Mae'r pro fforma cyfrifon yn darparu'r dadansoddiad hwn trwy ddefnyddio colofnau ar y fantolen gydag asedau a rhwymedigaethau pob categori cronfa yn cael eu nodi yn y colofnau ar wahân a ddarperir. Fel arall gall elusen ddarparu'r dadansoddiad hwn mewn nodyn ar y cyfrifon.

Colofnau - cyfrifyddu cronfeydd

Mae F01 i F05 yn disgrifio'r hyn y dylid ei nodi ym mhob *colofn*:

F01	Y golofn ar gyfer yr holl asedau a rhwymedigaethau sy'n perthyn i gronfeydd **incwm anghyfyngedig.**
F02	Y golofn ar gyfer yr holl asedau a rhwymedigaethau sy'n perthyn i gronfeydd **incwm cyfyngedig.**
F03	Y golofn ar gyfer asedau a rhwymedigaethau sy'n perthyn i gronfeydd **gwaddol.**
F04	Cyfanswm colofnau F01, F02 a F03 sy'n rhoi cyfanswm yr asedau a rhwymedigaethau ar gyfer yr holl gronfeydd.
F05	Mae'r golofn hon yn rhoi cyfanswm asedau a rhwymedigaethau pob cronfa ar gyfer y flwyddyn flaenorol.

Rhesi - asedau a rhwymedigaethau

Mae B01 i B20 yn disgrifio'r hyn y dylid ei nodi ym mhob *rhes* ar y fantolen.

Rhes	Yr hyn i'w gynnwys	Sut i'w brisio
B01	Defnyddir **asedau diriaethol** gan yr elusen i gyflawni ei gweithgareddau. Gallai gynnwys tir ac adeiladu, offer swyddfa, cerbydau ac ati.	Cost neu brisiad wrth gaffael llai dibrisiad.
B02	Mae'r rhes hon yn cael ei chwblhau dim ond os oes mathau eraill o asedau sefydlog gan yr elusen nad ydynt wedi'u cynnwys o fewn asedau sefydlog diriaethol (uchod) a buddsoddiadau (isod), er enghraifft, asedau anniriaethol, asedau treftadaeth a buddsoddiadau cysylltiedig â rhaglenni. Pan ddefnyddir y rhes hon, dylid rhoi gwybodaeth bellach yn yr adran nodiadau ychwanegol (nodyn 15) ar ddiwedd y pro fforma cyfrifon .	Cost neu brisiad llai dibrisiad.
B03	Mae asedau **buddsoddi** yn cael eu dal er mwyn cynhyrchu incwm neu enillion i gyllido gweithgareddau yn y dyfodol. Gallai gynnwys stociau a chyfranddaliadau, eiddo buddsoddi ac arian a ddelir yn y portffolio buddsoddi.	Gwerth y farchnad.
B04	**Cyfanswm asedau sefydlog**	Cyfanswm B01 i B03
B05	Mae **stoc a gwaith ar y gweill** yn golygu cyfanswm y stociau/stocrestrau (a gwaith ar y gweill) a ddelir ar ddiwedd y flwyddyn. Er enghraifft, nwyddau a ddelir i'w hailwerthu.	Yr isaf o gost neu werth realeiddio net.
B06	Mae **dyledwyr a rhagdaliadau** yn symiau sy'n ddyledus i'r elusen, er enghraifft, am wasanaethau a ddarparwyd gan yr elusen a symiau perthnasol a dalwyd ymlaen llaw (e.e. premiymau yswiriant).	Gwerth taliad llawn llai unrhyw ddarpariaeth ar gyfer drwgddyledion.
B07	Mae adneuon a **buddsoddiadau tymor byr** yn asedau buddsoddi rydych yn bwriadu realeiddio ac nid eu hail-fuddsoddi o fewn y flwyddyn nesaf.	Gwerth y farchnad.
B08	**Arian yn y banc ac mewn llaw** yw cyfanswm y gweddillion banc a'r arian a ddelir.	Union swm y gweddill.
B09	**Cyfanswm asedau cyfredol**	Cyfanswm B05 i B08.
B10	**Credydwyr a chroniadau: symiau'n ddyledus o fewn blwyddyn** yw'r symiau sy'n ddyledus gan yr elusen i gredydwyr sy'n daladwy cyn pen blwyddyn o ddyddiad y fantolen.	Gwerth taliad llawn.
B11	**Asedau neu rwymedigaethau cyfredol net**	Cyfanswm B09 llai B10.
B12	**Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol**	Cyfanswm B04 a B11.

Rhes	Yr hyn i'w gynnwys	Sut i'w werthuso
B13	**Credydwyr: symiau'n ddyledus ar ôl blwyddyn** yw'r symiau sy'n ddyledus gan yr elusen i gredydwyr sy'n daladwy ar ôl mwy na blwyddyn o ddyddiad y fantolen.	Gwerth taliad llawn.
B14	Unrhyw symiau a neilltuwyd fel **darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau yn y dyfodol.**	Gwerth taliad llawn.
B15	**Asedau net**	Cyfanswm B12 llai swm B13 a B14.

Rhesi - cronfeydd yr elusen

Rhaid i gyfanswm y cronfeydd a nodwyd isod gytuno â'r asedau net yn rhes B15 y fantolen a'r cyfanswm cronfeydd a nodwyd yn rhes S21 y DWA.

Rhes	Beth i'w gynnwys
B16	**Cronfeydd anghyfyngedig** yw cronfeydd y gellir eu gwario yn ôl disgresiwn yr ymddiriedolwyr elusen at unrhyw ddiben yr elusen. Mae gweddill y gronfa yn cynrychioli'r adnoddau heb eu gwario a ddelir o fewn y gronfa, hynny yw, ei hasedau llai rhwymedigaethau. Os yw rhai o'r cronfeydd hyn wedi cael eu **dynodi** neu eu clustnodi i dalu am wariant arfaethedig yn y dyfodol, gellir dangos y symiau hyn yn rhes B17.
B17	Mae **cronfeydd dynodedig** yn rhan o gronfeydd anghyfyngedig ond gellir eu dangos ar wahân gan ddefnyddio'r rhes hon.
B18	**Cronfeydd cyfyngedig** yw'r cronfeydd hynny y mae'n rhaid eu gwario fel incwm ar y dibenion arbennig a bennwyd gan y rhoddwr neu a nodwyd yn benodol mewn llenyddiaeth apêl.
B19	**Cronfeydd gwaddol** yw'r cronfeydd hynny y mae'n rhaid i'r elusen eu dal a'u cadw ac nid eu gwario fel incwm. Mae'r incwm sy'n codi yn cael ei ddefnyddio at ddibenion elusennol ac mae enillion cyfalaf yn cael eu cadw o fewn y gronfa. Dylid cynnwys gwaddol parhaol a threuliadwy yma.
B20	**Cyfanswm B16 i B19 sy'n rhoi cyfanswm cronfeydd.**

Mae angen nodiadau ar bob set o gyfrifon croniadau sy'n esbonio:

- Ar ba **sail** y mae'r cyfrifon wedi cael eu paratoi (Nodyn 1).
- Y **polisïau cyfrifyddu** sydd wedi cael eu mabwysiadu sy'n esbonio pan fydd asedau a rhwymedigaethau, adnoddau a dderbyniwyd ac adnoddau a ddefnyddiwyd yn cael eu cynnwys yn y cyfrifon a beth yw eu gwerth (Nodyn 2).
- **Gwybodaeth arall** sy'n ofynnol i ddarparu mwy o fanylion am yr hyn y mae'r datganiadau cyfrifyddu yn ei gynnwys a sicrhau bod y cyfrifon yn rhoi darlun 'gwir a theg'.

Ni fydd angen i'r rhan fwyaf o elusennau bach ddefnyddio'r holl nodiadau sydd wedi'u darparu yn y SORP Elusennau. Mae'r pro fforma cyfrifon yn darparu'r nodiadau y mae'n debygol y bydd eu hangen ar y rhan fwyaf o elusennau bach a rhoddir arweiniad pan fydd angen nodiadau ychwanegol o bosib.

Dylai'r nodiadau cwblhau hyn helpu ymddiriedolwyr sy'n defnyddio'r pro fforma cyfrifon i benderfynu pa nodiadau cyfrifyddu y dylid eu cynnwys ar gyfer eu helusen. Mae'r tabl isod yn esbonio beth ddylid ei gynnwys ym mhob un o'r nodiadau a ddarparwyd. Nid oes angen cwblhau unrhyw nodiadau nad ydynt yn gymwys. Gall fod angen nodiadau ychwanegol fel yr esbonia'r adran nesaf.

Gwybodaeth i'w darparu yn y nodiadau ar y cyfrifon

Nodyn 1	Mae'r **sail cyfrifyddu** yn esbonio'r safonau a'r confensiynau a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r cyfrifon. Mae'r SORP Elusennau yn cymryd y bydd 'safonau cyfrifyddu' yn cael eu defnyddio. Gall elusennau ddewis mabwysiadu FRSSE, safon i endidau llai, ac mewn achosion o'r fath dylid ticio'r blwch hwn.
Nodyn 2	Mae **polisïau cyfrifyddu** yn esbonio sut mae eitemau'n cael eu mesur, eu cydnabod a'u datgelu yn y cyfrifon. Mae'r rhestr a ddarparwyd yn y nodyn hwn yn dangos y polisïau ar gyfer cofnodi eitemau mewn cyfrifon croniadau sy'n gymwys i'r rhan fwyaf o elusennau llai. Os nad oes eitem arbennig gan elusen yn eu cyfrifon gellir dileu'r polisi sy'n ymwneud â'r eitem honno. Os nad yw elusen yn dilyn polisi arbennig a nodwyd rhaid dileu'r eitem a datgelu'r polisi a ddilynwyd yn y blwch ar ddiwedd y nodyn. Os oes eitem berthnasol gan elusen yn y cyfrifon sydd heb ei chynnwys gan un o'r nodiadau hyn dylid ychwanegu nodyn.
Nodyn 3	Mae'r nodyn hwn yn cynnig modd i ymddiriedolwyr ddarparu dadansoddiad o unrhyw symiau a ddangosir dan y prif benawdau ar gyfer **adnoddau a dderbyniwyd** yn y DWA. Er enghraifft, gellir dangos y gweithgareddau amrywiol ar gyfer codi incwm gwirfoddol. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, rhoddion a chyfraniadau, rhoddion o fath arall a gwasanaethau a roddwyd, casgliadau a chymynroddion ac ati. Gellir mabwysiadau dull tebyg wrth ddarparu dadansoddiad o'r symiau sydd wedi'u cynnwys ar gyfer cronfeydd a gynhyrchwyd trwy fasnachu, incwm buddsoddi a gweithgareddau elusennol. Dylai'r cyfanswm a nodwyd ar gyfer pob un o'r categorïau hyn o adnoddau a dderbyniwyd gytuno â'r cyfanswm a nodwyd yn rhesi S01 i S04 y DWA.
Nodyn 4	Mae'r nodyn hwn yn cynnig modd i ymddiriedolwyr ddarparu dadansoddiad o unrhyw symiau a ddangosir dan y prif benawdau ar gyfer **adnoddau a ddefnyddiwyd** yn y DWA. Er enghraifft, gellir dangos cost gwahanol weithgareddau elusennol. Gallai gynnwys, er enghraifft, dadansoddiad o gost prif brosiectau elusennol a gyflawnwyd neu gostau gwasanaethau arbennig a ddarparwyd. Dylai'r dadansoddiad hwn hefyd adnabod gweithgareddau a gafodd eu cyllido'n rhannol gan roi grantiau. Gellir mabwysiadu dull tebyg wrth ddarparu dadansoddiad o'r symiau sydd wedi'u cynnwys ar gyfer costau cynhyrchu cronfeydd trwy fasnachu, incwm buddsoddi a darparu gwybodaeth am gostau wedi'u cynnwys o fewn llywodraethu. Pan fydd dosbarthiad "naturiol" arall o wariant yn cael ei ddefnyddio, gellir addasu'r pennawd a ddarparwyd yn y nodyn hwn i ddarparu manylion pellach am y costau sydd wedi'u cynnwys yn y prif gategorïau gwariant a ddefnyddir yn y DWA. Dylai'r cyfanswm a nodwyd ar gyfer pob un o'r categorïau adnoddau a ddefnyddiwyd hyn gytuno â'r cyfanswm a nodwyd yn rhesi S07 i S12 y DWA.
Nodyn 5	Mae'r nodyn hwn yn darparu manylion am **gostau cynnal.** Mae angen cwblhau'r nodyn hwn dim ond pan fydd yr elusen yn mabwysiadu categorïau "gweithgaredd" y DWA i ddadansoddi'r adnoddau a ddefyddiwyd. Mae costau cynnal yn cynnwys swyddogaethau fel rheolaeth gyffredinol, cyllidebu a chyfrifyddu, gweinyddu'r gyflogres, technoleg gwybodaeth, adnoddau dynol a chyllido. Mae colofn gyntaf y nodyn hwn yn rhestru costau cynnal perthnasol yn ôl swyddogaeth. Gallwch ddewis penawdau sy'n briodol ar gyfer trefniadaeth eich elusen. Dylai'r nodyn hwn ddangos swm y costau cynnal sydd wedi cael eu dyrannu neu eu neilltuo ar draws tri phrif gategori gweithgaredd yr elusen.
Nodyn 6	Mae'r nodyn hwn yn darparu gwybodaeth benodol am **dreuliau ymddiriedolwyr** a'r ffioedd a dalwyd am **archwiliad ariannol neu archwiliad annibynnol** o'r cyfrifon. Os yw unrhyw ymddiriedolwr elusen wedi trafod busnes gyda'r elusen heblaw hawlio treuliau bydd angen cwblhau rhan berthnasol nodyn 14 hefyd.
Nodyn 7	Mae'r nodyn **gweithwyr cyflogedig** yn darparu gwybodaeth benodol am gostau staff a'r meysydd lle maent yn gweithio.

Nodyn 8	Mae'r nodyn **rhoi grantiau** yn darparu gwybodaeth bellach am y dibenion y rhoddwyd grantiau ar eu cyfer a'r sefydliadau a gefnogwyd. Mae'r nodyn hwn yn ofynnol dim ond os yw rhoi grantiau yn rhan berthnasol o weithgareddau'r elusen. Mae'r SORP Elusennau yn datgan os yw elusen wedi rhoi grantiau i sefydliadau dylai'r elusen ddarparu manylion am nifer digonol o grantiau sefydliadol er mwyn rhoi dealltwriaeth resymol o'r amrywiaeth o sefydliadau y mae wedi'u' cefnogi. Gellir hepgor gwybodaeth o nodyn 8.3 dim ond: • Os yw manylion grantiau sefydliadau yn cael eu rhoi mewn cyhoeddiad ar wahân neu yn adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr. Dylid ychwanegu nodyn o fewn y datgeliadau ychwanegol (nodyn 15) gan nodi enw'r cyhoeddiad a sut y gellir ei gael. • Mae'r ymddiriedolwyr wedi ymarfer eu hawl (gan ddilyn Deddf Elusennau 2006) i beidio â datgelu manylion y grantiau a wnaed os yw'r setlwr, ei briod neu ei bartner sifil yn dal yn fyw. Y setlwr yw'r cymwynaswr a sefydlodd yr ymddiriedolaeth drwy gyfrwng rhodd. **neu** • Pe gallai ddatgelu enw sefydliad arbennig **amharu'n ddifrifol** ar ddibenion yr elusen neu'r sefydliad sy'n ei dderbyn, gellir hepgor enw'r sefydliad. Dylid parhau i ddarparu gwybodaeth ynghylch diben a swm grantiau o'r fath. Pan fydd manylion grantiau i sefydliad yn cael eu hepgor ar y sail bod y datgeliad yn "amharu'n ddifrifol" dylid ychwanegu nodyn o fewn y datgeliadau ychwanegol (nodyn 15) yn cadarnhau bod manylion grantiau a hepgorwyd o'r datgeliad wedi cael eu rhoi i'r Comisiwn Elusennau.
Nodyn 9	Mae'r nodyn **asedau sefydlog diriaethol** yn darparu gwybodaeth am yr asedau a ddefnyddiwyd gan yr elusen i gyflawni ei gweithgareddau. Mae penawdau'r colofnau'n darparu dadansoddiad safonol o asedau sefydlog a gellir eu diwygio os yw mathau gwahanol o asedau'n cael eu dal. Rhaid i'r cyfansymiau a nodwyd yn y nodyn hwn gytuno â'r swm a nodwyd ar gyfer asedau sefydlog diriaethol yn y fantolen. Os yw unrhyw asedau sefydlog diriaethol wedi'u cynnwys yn ôl eu prisiad, dylid esbonio hyn trwy newid y polisïau cyfrifyddu a ddarparwyd yn nodyn 2 a thrwy ychwanegu manylion y sawl a gyflawnodd y prisiad yn nodyn 9.4.
Nodyn 10	Defnyddir y nodyn **ased buddsoddi** i ddarparu gwybodaeth bellach am fuddsoddiadau. Mae'n rhaid i'r cyfanswm a nodir yma gyfateb â'r swm a nodir ar gyfer buddsoddiadau ased sefydlog yn y fantolen. Bydd unrhyw elw neu golled wrth ail-brisio yn cytuno â'r swm a nodir ar gyfer enillion a cholledion buddsoddi yn y DWA.
Nodyn 11	Defnyddir y nodyn **dyledwyr a rhagdaliadau** i ddarparu gwybodaeth bellach am y symiau sy'n ddyledus i'r elusen. Mae angen i'r cyfanswm a nodwyd yn y nodyn hwn gytuno â'r swm a nodwyd ar gyfer dyledwyr yn y fantolen. Bydd dyledwyr masnachu yn cynnwys y symiau sy'n ddyledus i'r elusen, arian am wasanaethau a ddarparwyd gan yr elusen a grantiau a chyfraniadau sydd i'w derbyn ar ddiwedd y flwyddyn.
Nodyn 12	Defnyddir y nodyn **credydwyr a chroniadau** i ddarparu gwybodaeth bellach am y symiau sy'n ddyledus gan yr elusen. Mae'n rhaid i'r cyfanswm a nodir yn y nodyn hwn gytuno â'r swm a nodir ar gyfer credydwyr (yn ddyledus cyn pen blwyddyn) yn y fantolen. Bydd credydwyr masnachu yn cynnwys symiau sy'n ddyledus am nwyddau a gwasanaethau a ddarparwyd i'r elusen ac unrhyw rwymedigaethau am grantiau a chyfraniadau sy'n daladwy.
Nodyn 13	Defnyddir y nodyn **cronfeydd gwaddol a chyfyngedig** i ddarparu gwybodaeth bellach am unrhyw gyfyngiadau a allai fod yn gymwys i ddefnyddio cronfeydd arbennig. Gall rhai elusennau sydd â nifer o gronfeydd cyfyngedig a/neu nifer o gronfeydd gwaddol deimlo bod angen darparu manylion am y symudiadau ar gyfer pob un o'i phrif gronfeydd. Os yw'r dadansoddiad hwn yn cael ei ddarparu, gallwch grwpio cronfeydd llai gyda'i gilydd a rhoi manylion am y cronfeydd sy'n berthnasol yn unig. Dylid nodi unrhyw gronfa arbennig sydd mewn diffyg ar wahân yn y dadansoddiad o symudiadau cronfeydd a ddarparwyd yn nodyn 13.2 y pro fforma cyfrifon.
Nodyn 14	Mae'r nodyn **partïon perthynol** yn darparu gwybodaeth am unrhyw drafodion a gyflawnwyd gan yr elusen gyda'i hymddiriedolwyr neu eraill sy'n gysylltiedig â'r elusen. Darperir diffiniad byr o bartïon perthynol yn y rhestr termau i'r nodiadau hyn. Os yw ymddiriedolwyr elusen yn ansicr ynghylch a yw person neu sefydliad arbennig yn gysylltiedig â'r elusen neu beidio dylid cyfeirio at y diffiniad llawn yn y SORP Elusennau (rhestr termau GL50). Wrth gwblhau nodyn 14.3, gellir eithrio'r trafodion canlynol (manylion llawn yn SORP paragraff 229): • Cyfraniadau personol i'r elusen gan berson sy'n ymwneud â'r elusen oni bai fod amodau sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i'r elusen newid natur ei gweithgareddau yn sylweddol. • Parti perthynol yn prynu mân eitemau gan yr elusen sydd ar werth i'r cyhoedd ar yr un delerau. • Darparu gwasanaethau i barti perthynol os yw'r parti perthynol yn derbyn y gwasanaethau fel rhan o ddosbarth o fudd ehangach y mae'n aelod ohono.
Nodyn 15	Gellir defnyddio'r nodyn hwn, neu dudalen(nau) nodiadau pellach, i ddatgelu unrhyw faterion pwysig sydd heb eu cynnwys yn y pro fforma cyfrifon .

Adran 6 Datgeliadau nodyn ychwanegol a all fod eu hangen

Mae'n bosib y bydd angen i elusen ddarparu nodiadau ar faterion sy'n ychwanegol i'r rhai sydd wedi'u cynnwys yn y pro fforma cyfrifon.

Mae'r tabl isod yn darparu rhestr o faterion a all, ar brydiau, fod yn gymwys i elusen ond nid ydynt wedi'u cynnwys yn y pro fforma cyfrifon. Os yw unrhyw rai o'r materion hyn yn gymwys i'r elusen, gall fod angen datgeliadau pellach. Felly, dylai ymddiriedolwyr ddarllen y rhestr hon i weld a ddylid ychwanegu unrhyw rai o'r materion hyn i'r cyfrifon y maent yn eu paratoi. Wrth edrych ar y rhestr hon cofiwch y canlynol:

- Mae angen cyfeirio at faterion perthnasol yn unig (gweler y rhestr termau) yn y cyfrifon a'r nodiadau;
- Ni fydd y rhan fwyaf o'r materion sydd wedi'u cwmpasu yn y tabl isod yn gymwys i elusennau llai. Os yw'n amlwg **nad** yw unrhyw fater yn gymwys i'ch elusen anwybyddwch ef.

Os oes angen datgeliad nodyn ychwanegol, dylai ymddiriedolwyr gyfeirio at y SORP Elusennau am ganllawiau pellach neu drafod gyda'u harchwiliwr neu archwiliwr annibynnol sut y gellid cynnwys yr eitem yn y cyfrifon. Er y gallai'r rhestr hon fod yn ddefnyddiol i archwilwyr ac archwilwyr annibynnol hefyd, ni ddylai gymryd lle eu gweithdrefnau archwilio neu archwilio annibynnol eu hunain.

Mater	SORP Paragraff
Gwaddolion parhaol yn cael eu gweithredu ar sail cyfanswm elw.	75e
Unrhyw weithrediadau (y cyfan o fath arbennig o weithgaredd) a gafodd eu hatal neu eu caffael yn ystod y flwyddyn.	90
Adnoddau a gedwir ar gyfer trydydd parti.	115
Unrhyw gymynroddion perthnasol sydd heb eu cynnwys yn y cyfrifon.	128
Rhoddion o fath arall sydd heb gael eu dosbarthu eto.	132
Taliadau ex gratia a wnaed yn ystod y flwyddyn (gweler y rhestr termau).	240
Tir a ddefnyddiwyd gan yr elusen y mae ei werth yn y cyfrifon yn sylweddol wahanol i'r farchnad. (Nid yw'n cynnwys tir ac adeiladau a ddelir ar gyfer buddsoddi).	276
Sut y cynhaliwyd adolygiadau amhariad (os oes - gweler y rhestr termau).	277
Asedau buddsoddi y tu allan i'r DU. (Buddsoddiadau nodweddiadol heb eu gwneud trwy sefydliad a leolir yn y DU).	304
Manylion unrhyw fuddsoddiadau a ddelir fel rhan o asedau cyfredol.	316
Asedau a ddelir fel asiant gyfryngu (gan gynnwys cyllido cwndid a chasgliadau ar ran eraill).	319
Manylion darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau.	326-8
Ymrwymiadau perthnasol heb eu codi amdanynt yn y cyfrifon.	326-9
Gwarantau a roddwyd gan yr elusen i drydydd partïon.	336
Gwyriadau ariannol (wedi'u cysylltu â buddsoddiadau neu fenthyca fel arfer - gweler y rhestr termau).	339
Unrhyw rwymedigaethau amodol (gweler y rhestr termau) neu asedau amodol.	345-6, 348
Benthyciadau rhyng-gronfa sy'n ddyledus ar ddyddiad y fantolen.	350
Cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig.	444-8

Amhariad

Weithiau bydd ased sefydlog a ddefnyddir gan yr elusen yn cael ei 'amharu' sef mae ei werth i'r sefydliad yn lleihau (yn sylweddol) yn is na'r gwerth a ddangosir yn y cyfrifon. Os yw hyn yn digwydd dylai ymddiriedolwyr ystyried lleihau gwerth yr ased yn y fantolen gan gost amhariad.

Asedau sefydlog diriaethol a ddefnyddiwyd gan yr elusen

Asedau sydd ag oes o fwy na blwyddyn, sy'n berthnasol ac yn cael eu defnyddio gan yr elusen ar gyfer unrhyw un o'i gweithgareddau. Gall gynnwys tir ac adeiladau, cyfrifiaduron ac offer swyddfa, cerbydau ac ati, ond nid yw'n cynnwys asedau buddsoddi.

Costau cynnal

Mae'r costau hyn yn codi'n uniongyrchol *i gynnal* gwariant ar weithgareddau; byddent yn cynnwys, er enghraifft, y gwaith a wnaed gan staff pencadlys ar brosiect elusennol penodol neu i gynnal codi arian neu weithgaredd llywodraethu.

Cronfeydd - Cronfeydd anghyfyngedig

Cronfeydd y gall yr ymddiriedolwyr eu gwario ar gyfer unrhyw ddibenion yr elusen.

Cronfeydd - Cronfeydd dynodedig

Rhan o gronfeydd anghyfyngedig y mae'r ymddiriedolwyr wedi'u clustnodi at ddiben arbennig. Mae cronfeydd o'r fath yn rhan gyfreithiol o gronfeydd anghyfyngedig, ond gellir eu hadrodd ar wahân yn y fantolen neu'r nodiadau.

Cronfeydd - Cronfeydd gwaddol

Y cronfeydd lle mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i'r ymddiriedolwyr fuddsoddi neu gadw'r **cyfalaf.** Gellir gwario'r incwm a gynhyrchwyd o'r cyfalaf. Fel rheol bydd y cronfeydd hyn yn cynrychioli buddsoddiadau ond gallant gynrychioli eiddo a ddelir fel gwaddol hefyd at ddefnydd yr elusen. Mae dau fath o waddol: parhaol a threuliadwy (gweler isod).

Cronfeydd - cronfeydd incwm cyfyngedig

Cronfeydd y gall yr ymddiriedolwyr eu gwario ar ddibenion arbennig yr elusen yn unig.

Cronfeydd - Gwaddol parhaol

Cronfa waddol lle nad oes pŵer gan yr ymddiriedolwyr i wario'r cyfalaf.

Cronfeydd - Gwaddol treuliadwy

Cronfa waddol lle mae dewis gan yr ymddiriedolwyr wario'r cyfalaf, dan rai amodau, yn yr un ffordd â gwario cronfeydd incwm.

Defnydd swyddogaethol

Mae'n golygu defnydd mewn cysylltiad â gweithgaredd elusennol datganedig yr elusen neu ar gyfer codi arian neu weithgareddau llywodraethu y mae angen i'r elusen ymgymryd â nhw. Dylid cyferbynnu hyn â defnydd buddsoddi sy'n golygu ymwneud â rheoli asedau buddsoddi.

Deilliad ariannol

Mae deilliad ariannol yn warant, megis opsiwn neu gontract dyfodolion, y mae ei werth yn dibynnu ar berfformiad gwarant sy'n sail iddo. Yn eu ffurf symlaf gellir defnyddio deilliadau i leihau'r gost a/neu risg sy'n gysylltiedig â dal neu gaffael asedau.

Incwm gohiriedig

Mae'n cynrychioli adnoddau y mae'r elusen wedi'u derbyn ond heb eu cynnwys yn y cyfrifon oherwydd mae rhyw fath o amod yn gysylltiedig â nhw sydd y tu allan i reolaeth yr elusen. Fel arfer mae'n cynnwys adnoddau a dderbyniwyd nad oes modd eu gwario tan gyfnod cyfrifyddu yn y dyfodol, neu ni ellir eu defnyddio nes bod yr elusen yn cael hyd i gyllid cyfatebol.

Masnachu ategol

Mae masnachu ategol yn golygu masnachu nad yw'n hybu prif ddiben yr elusen yn uniongyrchol ond yn cael ei ymarfer yn ystod cyflawni prif ddiben. Enghraifft o fasnachu ategol yw elusen theatr yn gwerthu bwyd a diod mewn bwyty neu far i aelodau'r gynulleidfa. Cewch fwy o fanylion yn yr adran Elusennau ar wefan Tollau Tramor a Chartref yn y canllaw: Trading and business Activities: The basics (http://www.hmrc.gov.uk/charities/tax/trading/basics.htm)

Partïon perthynol

Mae diffiniad llawn o bartïon perthynol i'w weld yn rhestr termau SORP elusennau. Yn gyffredinol, partïon perthynol yw'r partïon hynny y mae gan yr elusen berthynas â nhw a allai ei rhwystro rhag dilyn ei buddiannau ei hun. Bydd yn cynnwys ymddiriedolwyr elusennau, y rhai sy'n gysylltiedig â'r ymddiriedolwr elusen, er enghraifft, trwy berthynas teuluol agos, ac unrhyw barti arall a all gael dylanwad mawr ar weithrediadau'r elusen.

Perthnasedd

Mae eitem yn berthnasol pe byddai cynnwys neu hepgor yr eitem o'r cyfrifon yn debygol o newid barn defnyddiwr am y cyfrifon. Fel rheol po fwyaf yr eitem y mwyaf perthnasol y mae'n debygol o fod.

Polisi ailbrisio asedau swyddogaethol

Mae'n digwydd pan fydd elusen yn ailbrisio'r asedau y mae'n eu defnyddio at ddibenion swyddogaethol bob blwyddyn. Prin yw'r elusennau sy'n mabwysiadu'r dull hwn, oherwydd gall fod yn ddrud ac nid yw'n angenrheidiol yn aml.

Rhwymedigaeth amodol

Mae'n golygu naill ai:

- Rhwymedigaeth bosib sy'n codi o ddigwyddiadau yn y gorffennol a bydd ei bodolaeth yn cael ei chadarnhau dim ond trwy un digwyddiad ansicr neu fwy yn y dyfodol nad yw o fewn rheolaeth lwyr yr elusen; neu
- Rwymedigaeth bresennol sy'n codi o ddigwyddiadau yn y gorffennol ond sydd heb ei chydnabod yn y cyfrifon oherwydd nid yw'n debygol y bydd angen defnyddio unrhyw adnoddau i'w thalu neu nid oes modd mesur y swm sydd ei angen gyda digon o ddibynadwyedd.

Taliadau ex gratia

Mae taliad ex gratia yn daliad sy'n cael ei wneud yn ôl disgresiwn yr ymddiriedolwyr ac nid o ganlyniad i gontract neu rwymedigaeth gyfreithiol arall. Rhaid i elusen ddatgelu unrhyw daliad ex gratia sy'n ymwneud â rhwymedigaeth nad yw wedi'i chynnwys o fewn ei hamcanion. Enghraifft fyddai taliad i dalu am gais mewn perthynas â chymynrodd a fyddai fel arall yn defnyddio adnoddau elusennol i dalu costau cyfreithiol.

Trothwy archwilio

Mae'r trothwy archwilio yn cyfeirio at faint yr elusen a phryd y mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith elusennau i elusen gael archwiliad ariannol gan archwiliwr cofrestredig. Ar gyfer blynyddoedd ariannol yn diweddu ar neu ar ôl 1 Ebrill 2009 rhaid cael archwiliad ariannol os yw naill ai incwm gros yn fwy na £500,000 neu os yw incwm gros yn fwy na £250,000 ac mae asedau yn fwy yn £3.26m Ar gyfer blynyddoedd ariannol yn diweddu cyn 1 Ebrill 2009 mae archwiliad statudol yn ofynnol os yw naill ai incwm gros yn fwy na £500,000 neu os yw incwm gros yn fwy na £100,000 ac mae asedau yn fwy na £2.8m. Rhagwelir y bydd pob un o'r trothwyon ariannol yn cael ei ailystyried fel rhan o ymrwymiad a wnaed i'r Senedd i gynnal adolygiad pum mlynedd o Ddeddf Elusennau 2006. Argymhellir bod elusennau'n cyfeirio at wefan y Comisiwn Elusennau i gael rhagor o wybodaeth am newidiadau i'r trothwyon yn y dyfodol a'u bod yn edrych ar wefan y Comisiwn Elusennau i gadarnhau'r trothwyon sy'n gymwys.